

Clwb Mynydda Cymru

Cyfarfod pwyllgor, Plas y Brenin, nos Lun, 25 Medi 2017

Presennol: Dwynwen; Eirwen; Gwyn; Iolo ap Gwyn; Marc; Myfyr; Raymond; Richard; Siân.

Ymddiheuriadau: Elen; Eryl; Gareth; Iolo Roberts.

1. Estynnwyd croeso i aelodau'r pwyllgor.

2. Cofnodion cyfarfod 22 Mai 2017

1.1 Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

1.2 **Pwynt 2.** Gwasg Carreg Gwalch – holwyd ynghylch derbyn cadarnhad bod arian breindal *Copaon Cymru* wedi'i dderbyn.

3. Gwefan y Clwb a chyfryngau cymdeithasol

3.1 Cyflwynodd Iolo ap Gwyn ddiweddariad o ran aiddylunio'r wefan. Trafodwyd y pwyntiau isod.

- Nifer cynyddol o ddefnyddwyr y wefan yn ei chyrru trwy ffonau sy'n arwain at yr angen i gael gwefan a fydd yn gydnaws â chyfrifiaduron a ffonau.
- Angen tocio ar rhai elfennau megis Y Fforwm, y ddolen gyswllt i'r tywydd a'r oriel (bydd modd cyrru'r lluniau o'r wefan ar ei newydd wedd).
- Cynnwys cyswllt 'byw' â *Facebook* a *Twitter*.
- Ystyried ailosod y modd y cyflwynir y rhaglen gan gynnwys braslun ac yna cynnig gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr pan maen nhw'n clicio ar enw taith.
- Archifo hanes teithiau'r gorffennol.
- Arbrofi gyda'r syniad o gysylltu ag arweinyddion teithiau trwy *Facebook* – gwirfoddolodd Dwynwen i fod yn weinyddwr ychwanegol i'r wefan a hefyd sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir arni'n gyfredol

3.2 Cytunwyd ar y camau nesaf, sef:

- hysbysu'r cyfarfod blynyddol bod y gwaith yn mynd rhagddo
- Iolo'n anfon doler gyswllt at aelodau'r pwyllgor er mwyn derbyn adborth ar y cynnwys ac ati
- llunio'r templedau newydd angenrheidiol
- gadael hen hanesion teithio fel ag y maen nhw.

4. Darlith Goffa Llew ap Gwent

4.1 Adroddwyd bod y ddarlith eleni wedi cael derbyniad gwresog dros ben.

- 4.2 O ran yr eisteddfod yng Nghaerdydd yn 2018, cytunwyd bod y dydd lau yn ddiwrnod da i gynnal y ddarlith. Cytunodd Siân i holi am le i gynnal y ddarlith yn ddiymdroi a chytunodd lolo i wahodd Bob Puw i'w thraddodi.
- 4.3 Cytunwyd y dylid achub ar y cyfle yn narlithoedd coffa Llew i hyrwyddo'r Clwb drwy ddangos sleidiau ar y sgrin, ar ffurf lŵp, fel mae pobl yn cymryd eu seddi ac i osod standin y tu allan i'r drws.

5. Cyfarfod blynyddol 2017 ac aelodaeth y pwyllgor

- 5.1 Adroddwyd bod Sam Roberts wedi derbyn gwahoddiad i annerch y cyfarfod.
- 5.2 Cytunodd Dwynwen ac lolo i ddod â chyfrifiadur gyda nhw gan nad ydy un Siân yn gydnaws â thaflunydd y Clwb.
- 5.3 Cytunwyd mai da o beth fyddai i Gareth gyflwyno 'adroddiad y trysorydd' yn y cyfarfod er ei fod yn awyddus i ymddiswyddo'n syth.
- 5.4 Cytunwyd y dylai cadeirydd y Clwb wasanaethu'n aelod o'r pwyllgor am gyfnod o ddwy flynedd yn dilyn ymgymryd â'r swydd.
- 5.5 Penderfynwyd gofyn i Chris Humphreys, Bethesda, a fyddai'n fodlon bod yn aelod o'r pwyllgor.

6. Canllawiau i arweinyddion teithiau

- 6.1 Cyflwynwyd copi o'r canllawiau a phenderfynwyd y dylid eu diwygio gan gynnwys:
- yr angen i arweinydd gario lloches ar y daith
 - pwysleisio'r angen i gadw'r cerddwyr/mynyddwyr gyda'i gilydd
 - tynnu sylw at fanteision cyd-arweinydd, yn arbennig os oes criw mawr yn cerdded/mynydda
 - tynnu sylw arweinyddion ac aelodau bod modd cofrestru ffonau symudol er mwyn eu defnyddio mewn mannau lle nad oes derbyniad – anfonwyd dolen gyswllt gan Dwynwen i'r perwyl hwn yn y fan a'r lle!

7. Cynllunio rhaglenni mynydda/dringo/beicio'r Clwb

- 7.1 Cytunwyd holi aelodau'r de am luniau/adroddiadau o'u teithiau nhw.

8. Prynu offer

- 8.1 Atgoffwyd aelodau'r pwyllgor bod pedwar lloches – ar gyfer rhwng 4 a 6 person – ym meddiant aelodau'r Clwb: Elen; Eryl; lolo R; Richard. Cytunwyd bod angen prynu tri arall.
- 8.2 Adroddwyd bod helmedau a pheth offer dringo yn nwylo Gareth Wyn.

- 8.3 Cynghorodd Myfyr ei bod yn llawer gwell i aelodau gario'u hoffer eu hunain ar y mynyddoedd ac adroddodd bod rhaffau dringo'r Clwb ar fin dod i ddiwedd eu hoes.
- 8.4 Penderfynwyd cynnwys eitem ar 'offer y Clwb' ar agenda'r Pwyllgor unwaith y flwyddyn o hyn ymlaen.

9. Cyngor Mynydda Prydeinig

- 9.1 Cyflwynodd Myfyr ddiweddariad o weithgareddau'r CMP.
- Mae arolwg yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i'r modd y mae'r CMP yn cael ei redeg a disgwylir cyhoeddi adroddiad ym mis Tachwedd.
 - Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru ynghylch mynediad i ddŵr, clogwyni môr a llwybrau y gellir beicio ar eu hyd.
 - Mae cyfle i'r CMP brynu traean o'r tir lle saif Craig y Forwyn.
 - Bu trafod ar ddamweiniau mewn chwareli yn ddiweddar, e.e. un person wedi mynd o dan ffens ac wedi syrthio i dwll.
 - Cylchgrawn *Summit* – dim ond 28% ohono'n ymwneud â cherdded tra bo 61% o'r rhai sy'n ei dderbyn yn gerddwyr!
 - Mae anniddigrwydd ynghylch y bont newydd yng Nghwm Idwal.
 - Mae angen i'r Clwb gael mwy o ddylanwad ar y CMP; penderfynwyd sefydlu is-grŵp i'r perwyl hwn.

10. Cyswllt â'r Bartneriaeth Awyr Agored

- 10.1 Cyflwynwyd adroddiad gan Raymond ac atgoffwyd aelodau'r pwyllgor o'r ffaith ei bod yn bosibl trefnu cyrsiau undydd sy'n ymwneud â mynydda cyn belled ag y bod o leiaf 5-6 yn cymryd rhan, a hynny am £20 y pen.
- 10.2 Cytunwyd cysylltu â Simon Jones, Y Bartneriaeth i drefnu cwrs REC cyfrwng Cymraeg i'r aelodau.

11. Unrhyw fater arall

- 11.1 Atgoffwyd y pwyllgor bod angen trysorydd newydd ar y Clwb a chrybwyllwyd yr enwau canlynol: Gwyn Williams (Chwilog); Dilys Phillips; Arwyn Jones; Alun (Caergybi); Gareth Pierce (CBAC).
- 11.2 Penderfynwyd prynu tocyn anrheg o siop Y Grib Goch i Gareth Everett Roberts i ddiolch iddo am wasanaethu fel trysorydd.

- 11.3 Penderfynwyd gofyn i Iolo Roberts ymwneud ag ymholiadau a ddaw i law trwy'r cyfeiriad ebost a gynigir ar wefan y Clwb.
- 11.4 Adroddwyd bod pump o aelodau newydd wedi'u denu yng Ngŵyl Mynydda Ogwen a gynhaliwyd ym mis Medi.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf

15 Ionawr 2018.